## Sêl Cymru a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Prif Sêl y Goron yw Sêl Fawr y Deyrnas, ac fe'i defnyddir i ddangos bod y Frenhines yn cymeradwyo dogfennau pwysig y wladwriaeth. Dechreuodd yr arfer o ddefnyddio'r sêl hwn yn ystod teyrnasiad Edward y Cyffeswr yn yr unfed ganrif ar ddeg, pan ddefnyddiwyd matrics metel dwyochrog, gyda delwedd o'r Brenin arno, i wneud argraffiad mewn cŵyr i'w glymu i ddogfennau Brenhinol â rhuban neu gortyn. Roedd y sêl yn golygu nad oedd angen i'r Brenin lofnodi pob dogfen swyddogol ei hun; byddai swyddog penodedig yn gallu'u hawdurdodi yn ei le.



Rhwng 2007 a 2011 roedd yn rhaid cael "Cymeradwyaeth Frenhinol" i Fesurau a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu Seliau Mawr eu hunain ac, o 2011 ymlaen, mae gan Gymru ei Sêl hithau.

### Cydsyniad Brenhinol

Drwy roi Cydsyniad Brenhinol, mae'r Frenhines yn cytuno i droi Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ddeddf. Mae'r Frenhines yn cytuno'n awtomatig i gydsynio â Mesur. Bydd y Frenhines yn rhoi Cydsyniad Brenhinol drwy lofnodi Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig.

### Ymchwil Myfyrwyr

Edrychwch ar enghreifftiau o Seliau gan ddefnyddio llyfrgell yr ysgol, eich llyfrgell leol neu'r rhyngrwyd. Hefyd ymchwiliwch i Sêl-fodrwyau a wisgwyd fel gemwaith ac a ddefnyddiwyd gan unigolion i selio llythrennau cyntaf eu henwau neu arfbais mewn seliau o gŵyr ar ddogfennau pwysig.

**Ffurf ar Freinlythyrau**

“ELISABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a’n Teyrnasoedd a’n Tiriogaethau eraill Pennaeth y Gymanwlad Amddiffynnydd y Ffyrdd At Ein Ffyddlon ac anwylaf aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru CYFARCHION: YN GYMAINT Â BOD un neu ragor o Filiau, y nodir eu henwau byr yn yr Atodlen i hyn wedi eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi eu cyflwyno i Ni ar gyfer Ein Cydsyniad Brenhinol gan Glec Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ond na ddaw’r Biliau hynny, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac na fydd iddynt effaith Gyfreithiol heb Ein Cydsyniad Brenhinol a ddynodir drwy Freinlythyrau o dan Ein Sêl Gymreig a’n llofnod Ein Hunain, yr Ydym felly wedi peri gwneud y rhain, Ein Breinlythyrau ac wedi eu llofnodi, a thrwyddynt rhoddwn Ein Cydsyniad Brenhinol i’r Biliau hynny sydd i’w cymryd a’u derbyn fel Deddfau da a pherffaith y Cynulliad a’u rhoi ar waith yn briodol yn unol â hynny GAN ORCHYMYN HEFYD Geidwad Ein Sêl Gymreig i selio’r rhain, Ein Llythyrau â’r Sêl honno. YN DYSTIOLAETH O HYNNY yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythyrau yn Agored TYSTIED Ein Hunain yn . . . ar y . . . dydd o . . . yn . . . blwyddyn Ein Teyrnasiad Llofnodwyd gan y Frenhines Ei Hunan â’i Llaw Ei Hunan.”

**Sêl Cymru**



**2011 – Sêl Newydd Cymru**
Nid oes Sêl Gymreig wedi bodoli ers oes Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru

Yn y R efferendwm ar 3 Mawrth 2011, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi rhagor o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly yn dilyn gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid oedd creu Sêl newydd i Gymru. Mae Sêl newydd Cymru yn addas ar gyfer gwlad feiddgar, yn sêl

fodern unochrog, sy'n cynrychioli'r Frenhiniaeth a Chymru. Defnyddir Sêl Cymru ar gyfer deddfau newydd â elwir yn Ddeddfau Cynulliad ar ôl i Fil gael Cydsyniad Brenhinol gan ei Mawrhydi y Frenhines. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan mae Prif Weinidog cymry yw Ceidwad Sêl Cymru.

**Sêl Mawr Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru**



Wyneb y Sêl Fawr



Cefn y Sêl Fawr

Dewiswyd un o dri lliw o gŵyr i wneud Seliau Cŵyr Hanesyddol



.

**Tasg:**

Gwnewch eich sêl eich hunan ar gyfer person o'ch dewis.

Rhaid i'r sêl ddweud rhywbeth wrthym am y perchennog.

Gwnewch restr o'r wybodaeth yr hoffech ei gynnwys ar y sêl.

- Beth yw ei swydd?
- Ymhle maen nhw'n byw?
- A ydyn nhw'n bwysig?
- Ceisiwch ddefnyddio arwyddluniau neu symbolau.
- Os yw'r sêl yn perthyn i rywun fel seren byd y ffilmiau, teledu neu ganu pop, aelod o'r teulu, rhywun sy'n bwysig yn eich bywyd neu ffrind arbennig, sut y byddech yn dangos hynny?

Hefyd mae'n rhaid i chi feddwl am yr arwyddair i'w rhoi ar y sêl – ychydig eiriau neu ymadrodd am y person.

Ysgrifennwch bwt am eich sêl, gan esbonio beth yr ydych chi wedi cynnwys yn y llun – a pham

Cofiwch ddylunio wyneb a chefn i eich sêl unigryw.

**Adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer y dasg:**

Papur

Sisyrnau

Pennau blaen ffelt/pensiliau lliw

Paent

Brwsys paent

Clai modelu/Plastr Paris

Bowliau cymysgu

Gorchudd amddiffynnol ar gyfer byrddau ayb.

Cyfrifiaduron – graffeg neu dylunio cyfrifiadurol